

Strategaeth Cadwraeth Dolffiniaid a Llamidyddion y DU

Cynllun Gweithredu

Cynnwys

Datblygu Camau Gweithredu ac Adolygu	2
Taflenni Gweithredu.....	2
1. Cyfuno a gwella gwybodaeth am ffynonellau, llwybrau ac effeithiau llygryddion, plastigau a biotocsinau ar famaliaid morfilaidd, er mwyn datblygu a gweithredu gwell rheolaeth.....	2
2. Datblygu a gweithredu menter lliniaru sgil-ddal y DU ymhellach.	4
3. Gwella dealltwriaeth o fynd ynghlwm a gweithio tuag at ddatblygu strategaethau i leihau'r bygythiad hwn.....	6
4. Cyfuno a gwella ein dealltwriaeth o effeithiau sŵn ar famaliaid morfilaidd er mwyn llywio dulliau rheoli a chadwraeth yn well.	8
5. Sefydlu dulliau o reoli twristiaeth bywyd gwyllt.	13
6. Gwella gwybodaeth am gyflwr ffisegol cynefinoedd ategol a'r ysglyfaethau sydd ar gael er mwyn llywio rheolaeth a chadwraeth.	15
7. Datblygu fframwaith er mwyn blaenoriaethu gofynion ymchwil	16
8. Datblygu a gweithredu cysylltiadau â rhanddeiliaid er mwyn cefnogi camau cadwraeth.	17
9. Datblygu a gweithredu cynllun monitro effeithiol er mwyn darparu dealltwriaeth fwy cadarn am statws cadwraeth mamaliaid morfilaidd y DU	19
Cyfeiriadau.....	21

Datblygu Camau Gweithredu ac Adolygu

1. Mae'r ddogfen hon yn darparu manylion am y Camau Gweithredu a nodir yn Strategaeth Cadwraeth Dolffiniaid a Llamidyddion y DU (Tabl 3). Mae'r Strategaeth Lefel Uchel yn darparu'r sail resymegol dros ddatblygu'r Camau Gweithredu, a darperir sgoriau amlygiad i niwed a hyder cysylltiedig yn yr Adroddiad Technegol.
2. Arddangosir pob Cam Gweithredu mewn Taflenni Gweithredu sy'n seiliedig ar y dull a fabwysiadwyd gan OSPAR. Mae'r Taflenni Gweithredu hyn yn darparu gwybodaeth fanylach am bob Cam Gweithredu.
3. Bydd y Strategaeth Lefel Uchel a'r adroddiad technegol yn cael eu hadolygu bob chwe blynedd. Mae'r manylion am y Camau Gweithredu wedi eu cynnwys yn y Cynllun Gweithredu hwn oherwydd mai dogfen fyw y bydd hi. Wrth ddatblygu'r Camau Gweithredu a phrosiectau cysylltiedig, bydd angen diweddarau'r ddogfen hon yn amlach na'r brif Strategaeth neu'r Adroddiad Technegol.
4. Bydd yr adolygiad bob chwe blynedd yn asesu'r cynnydd o'i gymharu â diben datganedig y Strategaeth.

Taflenni Gweithredu

1. **Cyfuno a gwella gwybodaeth am ffynonellau, llwybrau ac effeithiau llygryddion, plastigau a biotocsinau ar famaliaid morfilaidd, er mwyn datblygu a gweithredu gwell rheolaeth.**

Arweinydd Cyflawni	Y Llywodraeth a Chyrff Cadwraeth Natur Statudol
Cyfranogwyr ar gyfer cyflawni	Y Llywodraeth a Chyrff Cadwraeth Natur Statudol Rheoleiddwyr Cynrychiolwyr y diwydiant Arbenigwyr academiaidd Cyrff anllywodraethol Cynlluniau'r DU ar gyfer mamaliaid morol sydd wedi tiriog (SMASS, CSIP)
Disgrifiad o'r broblem	Ceir ymwybyddiaeth gynyddol o effaith bosibl halogyddion (e.e. biffenylau polychlorinedig), llygryddion (gan gynnwys macroblastigau a microblastigau), biotocsinau a blymau algaid niweidiol ar famaliaid morfilaidd. Mae crynodiadau uwch o halogyddion yn gyffredin mewn mamaliaid ym moroedd Ewrop, gan gynnwys dyfroedd y DU, er bod gwahaniaethau rhwng rhywogaethau a lleoliadau. Er

	<p>enghraifft, mae'n ymddangos bod crynodiadau amrywiaeth o lygryddion organig halogenaidd synthetig mewn mamaliaid morol ar lefelau sy'n arwyddocaol yn wenwynegol mewn unigolion o amrywiaeth o rywogaethau, gan gynnwys orca a rhywogaethau dolffiniaid eraill, i'r graddau y gallai atgenhedlu fod wedi ei niweidio.</p> <p>Mynegir y pryder mwyaf ynghylch cyfansoddion deuffenyl clorinedig, er bod amrywiaeth o grwpiau eraill o sylweddau (e.e. Deuclo Deuffenyl Tricloroethan), yn ogystal â microblastigau a macroblastigau a dirboenwyr sy'n digwydd yn naturiol (e.e. biotocsinau a blymau algaidd niweidiol) wedi codi pryderon, ac maent yn parhau i wneud hynny mewn llawer o achosion.</p>
Cynllun	Datblygu gweithgor â Chylch Gorchwyl y cytunwyd arno.
Amserlen	Creu gweithgor a chytuno ar Gylch Gorchwyl o fewn chwe mis i gyhoeddi'r strategaeth gadwraeth.
Cysylltiadau â chamau gweithredu eraill a gwerth ychwanegol	<p>Bydd y gwaith o'r Cam Gweithredu hwn yn bwydo'n uniongyrchol i mewn i'r Camau monitro sy'n seiliedig ar gynefinoedd ac ymchwil.</p> <p>Gallai ymchwil a gynhaliwyd a chanllawiau a gynhyrchir o dan y Cam Gweithredu hwn fwydo i mewn i/llywio gweithgorau a fframweithiau perthnasol, megis:</p> <p>Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol OSPAR Y Comisiwn Hela Mamaliaid morfilaidd Rhyngwladol Confensiwn Stockholm Cyngor Rhyngwladol Archwilio'r Môr Y Cytundeb ar Warchod Mamaliaid morfilaidd Bach ym Môr y Baltig, Gogledd-ddwyrain yr Iwerydd, Môr Iwerddon a Môr y Gogledd Rhaglen Monitro ac Asesu yr Arctig (AMAP)</p>
Adnoddau	Adnoddau personél sydd eu hangen i sefydlu gweithgorau ac i ddatblygu'r cynlluniau tymor byr, canolig a hirdymor.
Rhwystrau rhag Cynnydd	<p>Diffyg adnoddau: Gofynnir am adnoddau i sefydlu'r gweithgorau ac i ddatblygu/gweithredu cynlluniau tymor byr, canolig a hirdymor.</p> <p>Gallai rhai bylchau ymchwil fod yn rhy gostus i'w cyflawni, gan arwain at ansicrwydd parhaus mewn asesiadau, neu anallu i ymgymryd â rhai agweddau ar yr asesiad.</p>

	<p>Gofynnir am gyfraniad a chefnogaeth gan reolyddion a diwydiannau er mwyn caniatáu i fylchau gwybodaeth gael eu llenwi.</p> <p>Gallai cynnydd fod yn ddibynnol ar waith sy'n mynd rhagddo mewn grwpiau cenedlaethol a/neu ryngwladol eraill.</p>
Y rhanddeiliaid i ymgysylltu â nhw	Y partneriaid cyflenwi a'r rhanddeiliaid perthnasol a nodwyd gan y gweithgor.
Awdurdodau Cymwys Eraill	I'w nodi yn rhan o'r cysylltiad â grwpiau cenedlaethol eraill.

2. Datblygu a gweithredu menter lliniaru sgil-ddal y DU ymhellach.

Arweinydd Cyflawni	Y Llywodraeth
Cyfranogwyr ar gyfer cyflawni	Y Llywodraeth a Chyrff Cadwraeth Natur Statudol Rheoleiddwyr Cynrychiolwyr y diwydiant pysgodfeydd Arbenigwyr academaidd Cyrff anllywodraethol
Disgrifydd y broblem drosfwaol	<p>Mae sgil-ddal mewn pysgodfeydd yn parhau i fod yn un o'r bygythiadau mwyaf arwyddocaol i famaliaid morfilaidd yn fyd-eang. Yn y DU, mae sgil-ddal yn parhau i fod yn bryder, yn enwedig o safbwynt llesiant, ac eto mae llawer iawn o ansicrwydd o hyd ynghylch lefelau gwirioneddol sgil-ddal ym mhysgodfeydd y DU a chan longau eraill o Aelod-wladwriaethau'r UE.</p> <p>Bydd menter i fynd i'r afael â'r mater ar y cyd â rhanddeiliaid yn cael ei datblygu, gan ganolbwyntio ar waith lliniaru ymarferol sydd wedi ei dargedu a'i danategu gan gasglu data a chan dreialu technegau newydd. Bydd y fenter hon yn ceisio datblygu a chyflawni dull cydlynol a chydgyssylltiedig a arweinir gan rhanddeiliaid er mwyn mynd i'r afael â sgil-ddal mamaliaid morfilaidd yn nyfroedd y DU trwy weithredu mesurau lliniaru ymarferol ac effeithiol ar sail risg.</p>
Cynllun	<p>Mae Grŵp Ffocws Sgil-ddal wedi ei sefydlu, gyda gweithrediad Cylch Gorchwyl, i ddatblygu'r fenter yn llawn.</p> <p>Nodi a thargedu meysydd blaenoriaeth/risg uchel o ran sgil-ddal.</p>

	<p>Gweithio gyda phartneriaid masnachol, defnyddwyr, cyrff anllywodraethol a diwydiant i archwilio cymhellion posibl i bysgodfeydd weithredu mesurau lliniaru effeithiol, gan ddefnyddio ymchwil gymdeithasol a gwyddonol i danategu ac annog arferion gorau.</p> <p>Gweithio gydag arbenigwyr i ddatblygu mesurau lliniaru arloesol a gwerthuso effeithiolrwydd y mesurau lliniaru hyn (gan gynnwys gwaith sydd eisoes yn bodoli a nodi meysydd ar gyfer gwaith pellach).</p> <p>Bydd hyn yn golygu adeiladu ar waith presennol/parhaus a gweithio gyda gwahanol bartneriaid er mwyn nodi meysydd ar gyfer ymchwil pellach.</p> <p>Parhau, a phan fo hynny'n bosibl, gwella rhaglenni monitro presennol er mwyn mesur lefelau sgil-ddal, a fydd hefyd yn gweithredu fel offeryn mesur llwyddiant.</p> <p>Gellir defnyddio'r rhaglen monitro bresennol fel offeryn adrodd ar gyfer gofynion o dan Reoliad Mesurau Cadwraeth Technegol (UE) 2019/1241. Ceir cyfleoedd i symleiddio'r rhaglen hon ac i fanteisio ar synergeddau â rhaglenni monitro eraill er mwyn creu a bwydo i mewn i ddarlun mwy cyflawn ar y raddfa berthnasol.</p> <p>Adolygu cwmplas y cynllun ac a oes angen cynyddu/dechrau monitro mewn rhai ardaloedd na chanolbwyntiwyd arnynt yn y gorffennol.</p> <p>Adolygu a oes angen ailffurfio ac ail-ganolbwyntio ar fonitro, gan wneud pethau'n wahanol mewn ffordd sy'n adlewyrchu'n well y sefyllfa yn y DU.</p> <p>Cydweithio â'r gymuned ryngwladol ehangach i rannu llwyddiannau a gwersi a ddysgwyd er mwyn hybu lleihad sgil-ddal yn fyd-eang.</p> <p>Adolygu'r hyn y gellir eu cyflawni'n rheolaidd (yn flynyddol neu'n ddibynnol ar dasgau a nodir).</p>
Amserlen	<p>Crëwyd is-grwpiau er mwyn datblygu adrannau y mentrau. Bydd y grwpiau'n bwydo i mewn i gyfarfodydd chwech misol Grŵp Ffocws Sgil-ddal, lle bydd y grŵp yn goruchwylio datblygiad llawn y Fenter.</p>
Digwyddiadau	<p>Cyfarfodydd rheolaidd (bob chwe mis) Grŵp Ffocws Sgil-ddal Mamaliaid Morfilaidd, sy'n gysylltiedig â chyfarfod presennol Grŵp Llywio Prosiect ar gyfer rhaglenni monitro ac achosion o dirio yn y DU.</p>

Cysylltiadau â chamau gweithredu eraill a gwerth ychwanegol	Bydd y gweithgorau o'r Cam Gweithredu hwn yn bwydo'n uniongyrchol i mewn i'r Camau monitro sy'n seiliedig ar ymchwil. Gallai ymchwil a gynhelir o dan y Cam Gweithredu hwn fwydo i mewn i/llywio gweithgorau a fframweithiau perthnasol, megis: <ul style="list-style-type: none"> • Cyfarwydddeb Fframwaith y Strategaeth Forol • OSPAR • Cyngor Rhyngwladol Archwilio'r Môr
Adnoddau	Sicrhawyd cyllid ymchwil a datblygu ychwanegol gan Defra er mwyn hwyluso'r gwaith o gynhyrchu a chyflawni'r strategaeth ac ymdrechion cysylltiedig i leihau sgil-ddal. Ymgymerir â gwaith ychwanegol i bennu i ba raddau y mae angen adnoddau ychwanegol er mwyn cyflawni. Amcangyfrifir dau gyfarfod gweithgor fesul blwyddyn, sy'n para oddeutu 2 ddiwrnod; mae 15 o bobl yn bresennol ym mhob cyfarfod ar gyfartaledd.
Rhwystrau rhag cynnydd	Diffyg adnoddau: Gofynnir am adnoddau i sefydlu'r gweithgorau ac i ddatblygu/gweithredu cynlluniau. Gallai rhai bylchau ymchwil fod yn rhy gostus i'w cyflawni, gan arwain at ansicrwydd parhaus mewn asesiadau, neu anallu i ymgymryd â rhai agweddau ar yr asesiad
Y rhanddeiliaid i ymgysylltu â nhw	Fel y partneriaid cyflenwi a'r rhanddeiliaid perthnasol fel y nodwyd gan y gweithgor.
Awdurdodau Cymwys Eraill	I'w nodi yn rhan o'r cysylltiad â grwpiau cenedlaethol eraill.

3. Gwella dealltwriaeth o fynd ynghlwm a gweithio tuag at ddatblygu strategaethau i leihau'r bygythiad hwn.

Arweinydd Cyflawni	Y Llywodraeth
Cyfranogwyr ar gyfer cyflawni	Y Llywodraeth a Chyrff Cadwraeth Natur Statudol Rheoleiddwyr Cynrychiolwyr y diwydiant pysgodfa Arbenigwyr academaidd Cyrff anllywodraethol
Disgrifydd y broblem drosfwaol	Mae achosion o famaliaid morfilaidd yn mynd ynghlwm mewn offer pysgota yn ddigwyddiad cyffredin a byd-eang sy'n ennill sylw cynyddol.

	<p>Yn yr Alban, mae morfilod pigfain yn gymharol niferus ac mae'n hysbys eu bod nhw a morfilod eraill â phig yn mynd ynghlwm mewn llinellau cewyll a rhaffau eraill. Ychydig a wyddom am raddfa'r broblem, ond mae'n ofynnol bod aelod-wladwriaethau Ewrop yn sefydlu dulliau o fonitro marwolaethau o'r fath.</p>
Cynllun	<p>Datblygu gweithgor gyda'r Cylch Gorchwyl y cytunwyd arno. Nodi a thargedu meysydd blaenoriaeth/risg uchel o ran achosion o fynd ynghlwm.</p> <p>Gweithio gyda phartneriaid masnachol, defnyddwyr, cyrff anllywodraethol a diwydiant i archwilio cymhellion posibl i bysgodfeydd weithredu mesurau lliniaru effeithiol, gan ddefnyddio ymchwil gymdeithasol a gwyddonol i danategu ac annog arferion gorau.</p> <p>Gweithio gydag arbenigwyr i ddatblygu mesurau lliniaru arloesol a gwerthuso effeithiolrwydd y mesurau lliniaru hyn (gan gynnwys gwaith sydd eisoes yn bodoli a nodi meysydd ar gyfer gwaith pellach).</p> <p>Bydd hyn yn golygu adeiladu ar waith presennol/parhaus a gweithio gyda gwahanol bartneriaid er mwyn nodi meysydd ar gyfer ymchwil pellach.</p> <p>Parhau, a phan fo hynny'n bosibl, gwella rhaglenni monitro presennol er mwyn mesur nifer yr achosion o fynd ynghlwm, a fydd hefyd yn gweithredu fel offeryn mesur llwyddiant.</p> <p>Ceir cyfleoedd i symleiddio'r rhaglen hon ac i fanteisio ar synergeddau â rhaglenni monitro eraill er mwyn creu a bwydo i mewn i ddarlun mwy cyflawn ar y raddfa berthnasol.</p> <p>Adolygu a oes angen ailffurfio ac ail-ganolbwyntio ar fonitro, gan wneud pethau'n wahanol mewn ffordd sy'n adlewyrchu'n well y sefyllfa yn y DU.</p> <p>Cydweithio â'r gymuned ryngwladol ehangach i rannu llwyddiannau a gwersi a ddysgwyd er mwyn hybu lleihad mewn cylymau yn fyd-eang.</p> <p>Adolygu'r hyn y gellir ei gyflawni'n rheolaidd (yn flynyddol neu'n ddibynnol ar dasgau a nodir).</p>
Amserlen	<p>Creu gweithgor Gweithredu a Chylch Gorchwyl (o fewn chwe mis i gyhoeddi'r strategaeth gadwraeth).</p>
Digwyddiadau	<p>Cyfarfodydd Gweithgor er mwyn datblygu Cylch Gorchwyl.</p>
Cysylltiadau â chamau gweithredu	<p>Bydd y gweithgorau o'r Cam Gweithredu hwn yn bwydo'n uniongyrchol i mewn i'r Camau monitro sy'n seiliedig ar ymchwil.</p>

eraill a gwerth ychwanegol	Gallai ymchwil a gynhelir o dan y Cam Gweithredu hwn fwydo i mewn i/llywio gweithgorau a fframweithiau perthnasol, megis: <ul style="list-style-type: none"> • Cyfarwydddeb Fframwaith y Strategaeth Forol • OSPAR • Cyngor Rhyngwladol Archwilio'r Môr
Adnoddau	Adnoddau dynol sydd eu hangen i sefydlu gweithgorau ac i ddatblygu'r cynlluniau tymor byr, canolig a hirdymor.
Rhwystrau rhag cynnydd	Diffyg adnoddau: Gofynnir am adnoddau i sefydlu'r gweithgorau ac i ddatblygu/gweithredu cynlluniau. Gallai rhai bylchau ymchwil fod yn rhy gostus i'w cyflawni, gan arwain at ansicrwydd parhaus mewn asesiadau, neu anallu i ymgymryd â rhai agweddau ar yr asesiad.
Y rhanddeiliaid i ymgysylltu â nhw	Fel y partneriaid cyflenwi a'r rhanddeiliaid perthnasol fel y nodwyd gan y gweithgor.
Awdurdodau Cymwys Eraill	I'w nodi yn rhan o'r cysylltiad â grwpiau cenedlaethol eraill.

4. Cyfuno a gwella ein dealltwriaeth o effeithiau sŵn ar famaliaid morfilaidd er mwyn llywio dulliau rheoli a chadwraeth yn well.

- A. Datblygu fframwaith gweithredol er mwyn rheoli effaith gronol aflonyddwch acwstig yng nghyd-destun asesiadau amgylcheddol.**
- B. Deall pwysau lefelau sŵn amgylchynol, gwerthuso cyfraniad sŵn llongau tuag atynt a'r effaith bosibl ar boblogaethau mamaliaid morfilaidd.**
- C. Tueddiadau tebygol y dyfodol o ran sŵn tanddwr: Cyfuno a gwella gwybodaeth am ffynonellau cynyddol o sŵn tanddwr.**

Arweinydd Cyflawni	Y Llywodraeth a Chyrff Cadwraeth Natur Statudol
Cyfranogwyr ar gyfer cyflawni	Y Llywodraeth a Chyrff Cadwraeth Natur Statudol Rheoleiddwyr Cynrychiolwyr y diwydiant Arbenigwyr academaidd Cyrff anllywodraethol
Disgrifydd broblem droswaol	Mae mamaliaid morfilaidd yn defnyddio sain i gyfathrebu, i chwilio am ysglyfaeth, i osgoi ysglyfaethwyr a pheryglon, ac i forlywio amrediadau byr a hir. Gall sŵn yn yr amgylchedd morol effeithio ar famaliaid morfilaidd mewn gwahanol ffyrdd, gan ddibynnu ar

	<p>ddwysedd (lefel pwysedd y sain), amledd a natur (e.e. ergydiol, ddim yn ergydiol) ffynhonnell y sain.</p> <p>Mae ymchwil hyd yma wedi cofnodi presenoldeb ac absenoldeb effeithiau ffisiolegol a/neu ymatebion ymddygiadol mamaliaid morfilaidd i wahanol ffynonellau o sŵn tanddwr. Tynnir sylw'n aml at amrywioldeb mewn effeithiau a/neu ymatebion a allai fod yn benodol i rywogaethau, yn benodol i leoliad a/neu'n benodol i gyd-destun (e.e. chwilota, mudo). Mae'r ymchwil hon wedi ysgogi trafodaethau ymhlith gwyddonwyr, rhanddeiliaid a llunwyr polisïau ynghylch sut i fynd i'r afael ag effeithiau posibl sŵn tanddwr a sut i ddatblygu mesurau lliniaru ystyrion mewn fframweithiau rheoleiddio. Mae gan y corff hwn o waith, ynghyd â phwysau cynyddol sy'n ymwneud â diwydiannau morol (e.e. ynni adnewyddadwy, olew a nwy, dyframaethu) y potensial i achosi dirboenwyr acwstig lluosog sy'n effeithio ar boblogaethau mamaliaid morfilaidd, ac felly mae angen Asesiad Effaith Cronnol. Mae hyn wedi codi nifer o gwestiynau y mae gan bob un ohonynt oblygiadau trosfwaol o ran monitro a rheoli sŵn, ac mae'r rhain yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Diffyg data empirig ar wahanol agweddau ar y sŵn a gynhyrchir gan wahanol ddiwydiannau, gan gynnwys priodweddau ffisegol sŵn sy'n agos at y ffynhonnell a sut mae sain yn newid â phellter oddi wrth y ffynhonnell; • Gwahanol reoleiddwyr ar gyfer gwahanol weithgareddau, sy'n golygu nad yw'r holl wybodaeth am weithgareddau eraill ar gael pan wneir penderfyniadau trwyddedu; • Effaith gwahanol synau ar rywogaethau mamaliaid morfilaidd, gan gynnwys a geir anaf clywedol; • Ceir diffyg dealltwriaeth gyffredinol ynghylch ymateb rhywogaethau mamaliaid morfilaidd i wahanol fathau o signalau a sut y cânt eu haddasu neu eu cymedroli yn unol â'r cyd-destun; • Os yw effeithiau ar lefel unigol yn trosi'n effaith ar lefel y boblogaeth, a sut y gellid meintoli'r effeithiau hyn? • Yr angen am ragor o hyder mewn helaethrwydd a data demograffig a ddefnyddir i lywio canlyniadau aflonyddwch ar lefel poblogaeth.
Disgrifiad o'r broblem A)	Er mwyn asesu'n llawn effeithiau aflonyddwch acwstig oherwydd gweithgareddau dynol penodol ar famaliaid morfilaidd, mae angen inni allu ystyried effeithiau cronol yr holl weithgareddau

		eraill, yn ogystal â'r gweithgaredd sydd dan sylw. Mae datblygu dull o asesu effeithiau cronol sŵn tanddwr ar gyfer un diwydiant yn unig yn her, ond mae dwyn ynghyd effeithiau gwahanol ddiwydiannau mewn ffordd gydlynol yn ddigon cymhleth ar hyn o bryd ac felly fe'i gwneir mewn modd ansoddol yn nodweddiadol. Mae rhai fframweithiau'n bodoli ar hyn o bryd er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn (e.e. iPCOD ¹ a DEPONS ²) ac er bod ganddynt ddefnyddioldeb, mae gan bob un ohonynt gyfyngiadau. Nod y Cam Gweithredu hwn yw mynd i'r afael â'r materion hyn.
Disgrifiad o'r broblem B)		Prin yw'r wybodaeth am lefelau sŵn amgylchynol tanddwr ledled dyfroedd y DU, er bod rhywfaint o waith rhagarweiniol wedi ei wneud (Merchant <i>et al.</i> , 2016). Mae angen gwaith er mwyn gwerthuso cyfraniad ychwanegol sŵn llongau tuag at y lefelau amgylchynol hynny a'r effaith bosibl ar famaliaid morfilaidd. Gofynnir am ddeall y lefelau sŵn, eu hamrywioldeb, a'r potensial o ryngweithio â mamaliaid morfilaidd, cyn y gellir datblygu camau rheoli. Sŵn o longau yw'r cyfrannwr mwyaf tuag at sŵn tanddwr amledd isel ledled y byd. Mae synau a gynhyrchir gan bropelorau, blychau gêr a chyrrff llongau yn lledaenu ar draws ardaloedd mawr, a gellir eu canfod mewn ardaloedd sydd ymhell oddi wrth longau neu lwybrau llongau. Mae pryder bod y gweithgareddau hyn yn cynyddu'r sŵn amledd isel amgylchynol yn gyffredinol a bod ganddynt y potensial i guddio mamaliaid morfilaidd amledd isel.
Disgrifiad o'r broblem C)		Mae angen cyfuno a gwella gwybodaeth ynghylch cynyddu ffynonellau o sŵn tanddwr oherwydd graddfa a chymhlethdod cynyddol datblygiadau morol (e.e., ffermydd gwynt ar y môr, ailddatblygu harbyrau). Er enghraifft, mae'r datblygiadau hyn wedi arwain at ddarganfod mwy a mwy o ddodiadau heb ffrwydro (UXO), y mae angen eu gwaredu. Bu cynnydd hefyd yn y defnydd o Ddyfeisiau Atal Acwstig ar gyfer lliniaru mewn diwydiannau ar y môr, yn ogystal â'u defnyddio i leihau ysglyfaethu morloi mewn safleoedd dyframaethu ac afonydd eogiaid. Fodd bynnag, ar gyfer Dyfeisiau Atal Acwstig, ceir gwybodaeth anghyflawn am eu dosbarthiad, eu defnydd cyfredol (e.e. cylch dyletswydd) a'r mathau (h.y. gwneuthurwr a model) sy'n cael eu defnyddio.

¹ <http://marine.gov.scot/information/interim-population-consequences-disturbance-model-ipcod>

² <https://www.ascobans.org/en/document/depons-project-%E2%80%93-disturbance-effects-harbour-porpoise-population-north-sea-0>

	<p>Yn dilyn cyhoeddi trothwyon y Gwasanaeth Pysgodfeydd Morol Cenedlaethol (2018), ceir pryder bod parthau effaith rhai gweithgareddau sy'n gysylltiedig â sŵn (e.e. ordnans heb eu tanio) wedi cynyddu (ac wedi gostwng mewn rhai achosion), ac felly efallai y bydd angen camau lliniaru eraill er mwyn lleihau unrhyw effeithiau posibl.</p>
Cynllun	<p>Datblygu gweithgorau Gweithredu (ac isgrwpiau, os oes angen) gyda'r Cylch Gorchwyl y cytunwyd arno.</p> <p>Defnyddio cronfeydd data, rhaglenni ac arferion gorau sefydledig eraill, megis y Gofrestr Sŵn Morol (Cydbwyllgor Cadwraeth Natur) a chynllun cymhelliant porthladd Vancouver (i leihau sŵn llongau).</p> <p>Bydd y cynlluniau'n cynnwys yr hyn y gellir ei gyflawni megis adolygu methodolegau sydd eisoes yn bodoli a dwyn ynghyd prosiectau sy'n mynd rhagddynt a allai lywio'r Cam Gweithredu a'r broses o ddatblygu offer er mwyn llywio'r gwaith rheoli.</p> <p>Gallai targedau ymchwil posibl gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwell dealltwriaeth o lefelau sŵn amgylchynol a gwerthuso'r cyfraniad y mae sŵn llongau yn ei wneud tuag atynt. • Gwell dealltwriaeth o'r ymateb a gafwyd gan ddyfeisiau atal presennol, sut mae hyn yn amrywio rhwng rhywogaethau a chyd-destunau, a sut mae hyn yn debygol o newid dros amser. • Gwell dealltwriaeth o faint o weithgareddau didrwydded sy'n cyfrannu at sŵn tanddwr cronol. • Nodi'r gyfres fwyaf priodol o fesurau lliniaru ar gyfer clirio ordnans heb eu tanio. • Adolygu'r canllawiau presennol.
Amserlen	<p>Creu gweithgor Gweithredu, Cylch Gorchwyl ac isgrwpiau cysylltiedig (o fewn chwe mis i gyhoeddi'r strategaeth gadwraeth).</p> <p>Bydd camau cychwynnol yn gofyn am gasglu, prosesu a modelu data, felly mae'n bosibl na fydd y canlyniadau yn ddi-oed.</p>
Cysylltiadau â chamau gweithredu eraill a gwerth ychwanegol	<p>Bydd y gweithgorau o'r Cam Gweithredu hwn yn bwydo'n uniongyrchol i mewn i'r Camau monitro sy'n seiliedig ar ymchwil.</p> <p>Gallai ymchwil a gynhelir o dan y Cam Gweithredu hwn fwydo i mewn i/llywio gweithgorau a fframweithiau perthnasol, megis:</p> <p>Cyfarwydddeb Fframwaith y Strategaeth Forol Cofrestr Sŵn y DU, a reolir gan y Cydbwyllgor Cadwraeth Natur OSPAR ICG-noise Prosiect Cyd-ddiwydiant Adnewyddadwy Ar y Môr (ORJIP) Grŵp Trwyddedu Ynni Adnewyddadwy ar y Môr</p>

	<p>Cyngor Rhyngwladol Archwilio'r Môr Grŵp Technegol ar Sŵn Tanddwr a mathau eraill o Ynni (TG-Noise).</p> <p>Mae rhaglenni ymchwil perthnasol sy'n mynd rhagddynt yn cynnwys:</p> <p>Mae Marine Scotland a Chanolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu (Cefas) yn bartneriaid ym mhrosiect Rhaglen Fonitro ar y Cyd ar gyfer Sŵn Amgylchynol Môr y Gogledd (JOMOPANS), a fydd yn cynnal ymchwil sy'n berthnasol i'r Cam Gweithredu hwn ym Môr y Gogledd, gan weithio gyda phartneriaid o Ffrainc, Gwlad Belg, yr Iseldiroedd, yr Almaen, Denmarc, Sweden a Norwy.</p> <p>Mae Marine Scotland a Chymdeithas Gwyddor Môr yr Alban (SAMS) yn bartneriaid ym mhrosiect COMPASS, a fydd yn ymgymryd ag ymchwil sy'n berthnasol i'r Cam Gweithredu hwn yng ngorllewin yr Alban sy'n rhan o ardal INTERREG VA, gan weithio gyda phartneriaid eraill yng Ngogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon.</p> <p>Astudiaeth Acwstig Mamaliaid Morol Arfordir y Dwyrain Marine Scotland (ECOMMAS), sy'n cynnwys recordwyr acwstig a/neu synwryddion sy'n clicio mewn 30 o leoliadau ar arfordir dwyreiniol yr Alban. Mae'r prosiect hwn yn mynd rhagddo, ac mae wedi bod yn rhedeg ers 2013. Mae prosiect JONAS yn mynd i'r afael â bygythiadau i fioamrywiaeth oherwydd llygredd sŵn tanddwr ar rywogaethau sensitif trwy symleiddio'r broses o fonitro sŵn a rheoli risg ar sail ryngwladol. Mae Marine Scotland yn cynnal adolygiad er mwyn cadarnhau graddau'r defnydd o Ddyfeisiau Atal Acwstig a datblygu canllawiau.</p>
Adnoddau	Adnoddau dynol sydd eu hangen i sefydlu gweithgorau ac i ddatblygu'r cynlluniau tymor byr, canolig a hirdymor.
Rhwystrau rhag Cynnydd	<p>Diffyg adnoddau: Gofynnir am adnoddau i sefydlu'r gweithgorau ac i ddatblygu/gweithredu cynlluniau tymor byr, canolig a hirdymor.</p> <p>Gallai rhai bylchau ymchwil fod yn rhy gostus i'w cyflawni, gan arwain at ansicrwydd parhaus mewn asesiadau, neu anallu i ymgymryd â rhai agweddau ar yr asesiad.</p> <p>Gofynnir am gyfraniad a chefnogaeth gan reolyddion a diwydiannau er mwyn caniatáu i fylchau gwybodaeth gael eu llenwi.</p>

	Gallai cynnydd fod yn ddibynnol ar waith sy'n mynd rhagddo mewn grwpiau cenedlaethol a/neu ryngwladol eraill. Gallai colli offer monitro acwstig posibl ar y môr leihau'r setiau data sydd ar gael ar gyfer gwneud penderfyniadau.
Y rhanddeiliaid i ymgysylltu â nhw	Fel y partneriaid cyflenwi a'r rhanddeiliaid rhanbarthol perthnasol fel y nodwyd gan y gweithgorau.
Awdurdodau Cymwys Eraill	I'w nodi yn rhan o'r cysylltiad â grwpiau cenedlaethol a rhyngwladol eraill.

5. Sefydlu dulliau o reoli twristiaeth bywyd gwyllt.

Arweinydd Cyflawni	Cyrff Cadwraeth Natur Statudol
Cyfranogwyr ar gyfer cyflawni	Y Llywodraeth a Chyrff Cadwraeth Natur Statudol Cynrychiolwyr y diwydiant Arbenigwyr academiaidd Cyrff anllywodraethol Swyddogion (heddlu) cyswllt bywyd gwyllt
Disgrifiad o'r problem	<p>Mae twristiaeth bywyd gwyllt morol yn dod yn fwyfwy pwysig i economi'r DU.</p> <p>Dangoswyd bod llongau gwyllo bywyd gwyllt, yn ogystal â gweithgareddau hamdden, yn effeithio'n negyddol ar rai rhywogaethau mamaliaid morfilaidd. Felly, mae'n werth adolygu'r angen am fesurau rheoli yn y DU, e.e. trwyddedu, rheoliadau, cynlluniau achredu cenedlaethol, a chanllawiau ynghylch gwyllo bywyd gwyllt. Yn ôl yr angen, dylai mesurau o'r fath anelu at sicrhau nad yw twristiaeth bywyd gwyllt na gweithgareddau hamdden yn cael effaith negyddol ar oroesiad hirdymor poblogaethau a chynefinoedd, gan gael cyn lleied o effaith â phosibl ar ymddygiad anifeiliaid. Mae angen adolygu cydymffurfedd, gorfodaeth a dulliau o grybwyll troseddau bywyd gwyllt posibl hefyd.</p> <p>Diben Cod Gwyllo Bywyd Gwyllt Morol yr Alban (SMWWC) yw codi ymwybyddiaeth a chynnig canllawiau ymarferol i unrhyw un sy'n gwyllo bywyd gwyllt, p'un a yw'n aelod o'r cyhoedd neu'n weithredwr masnachol. Nid yw'r Cod yn gyfraith nac yn rheoliad, ond daeth y datblygiad o ofyniad statudol o dan Ddeddf Cadwraeth Natur (Yr Alban) 2004. Mewn mannau eraill yn y DU, ceir codau ymddygiad</p>

	lleol/rhanbarthol. Mae'r rhain yn amrywio o ran y wybodaeth a ddarperir ganddynt ac nid yw rhai ohonynt yn dogfennu'n glir beth yw aflonyddwch, troseddau posibl, na'r dulliau ar gyfer crybwyll troseddau bywyd gwyllt.
Cynllun	Mae'r cynllun hwn yn berthnasol i bob rhywogaeth o famaliaid morfilaidd yn y Strategaeth Gadwraeth, ond bydd ganddo gylch gwaith ehangach hefyd a fydd yn cwmpasu rhywogaethau eraill a dargedir yn aml gan weithrediadau gwyllo bywyd gwyllt, e.e. heulgwn. Bydd datblygu'r camau gweithredu yn gofyn am: Ffurio gweithgor a chytundeb Cylch Gorchwyl.
Amserlen	Creu grŵp llywio a Chylch Gorchwyl (o fewn tri mis i gyhoeddi'r Strategaeth Gadwraeth).
Digwyddiadau	Cyfarfodydd Gweithgor er mwyn datblygu Cylch Gorchwyl.
Cysylltiadau â chamau gweithredu eraill a gwerth ychwanegol	Bydd y gweithgorau o'r Cam Gweithredu hwn yn bwydo'n uniongyrchol i mewn i'r Camau monitro sy'n seiliedig ar ymchwil. Mae hyn yn berthnasol i waith a ymgwymerir ar hyn o bryd gan CMS a'r Comisiwn Hela Mamaliaid morfilaidd Rhyngwladol er mwyn datblygu canllawiau arferion gorau ar gyfer gwyllo bywyd gwyllt morol. Mae'n berthnasol hefyd i ymrwymadau y Cytundeb ar Warchod Mamaliaid morfilaidd Bach ym Môr y Baltig, Gogledd-ddwyrain yr Iwerydd, Môr Iwerddon a Môr y Gogledd.
Adnoddau	Personél ar gyfer adolygu a datblygu canllawiau rheoli a/neu droswaol. Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid, hysbysebu unrhyw ganllawiau newydd, trefnu cyfarfodydd gweithgor a gweithdai.
Rhwystrau rhag Cynnydd	Diffyg adnoddau: Gofynnir am adnoddau i sefydlu'r gweithgor a chyfarfodydd ymgysylltu. Gallai rhai bylchau ymchwil fod yn rhy gostus i'w cyflawni, gan arwain at ansicrwydd parhaus wrth wneud cynnydd o ran rheolaeth. Gofynnir am gyfraniad a chefnogaeth gan y llywodraeth a'r diwydiannau.
Y rhanddeiliaid i ymgysylltu â nhw	Y partneriaid cyflenwi a'r rhanddeiliaid rhanbarthol perthnasol a nodwyd gan y gweithgorau.
Awdurdodau Cymwys Eraill	I'w nodi yn rhan o'r cysylltiad â grwpiau cenedlaethol a rhyngwladol eraill.
Cynnyrch/cynhyrchion	I'w penderfynu trwy adolygu dewisiadau rheoli.

--	--

6. Gwella gwybodaeth am gyflwr ffisegol cynefinoedd ategol a'r ysglyfaethau sydd ar gael er mwyn llywio rheolaeth a chadwraeth.

Arweinydd Cyflawni	Cyrff Cadwraeth Natur Statudol
Cyfranogwyr ar gyfer cyflawni	Y Llywodraeth a Chyrff Cadwraeth Natur Statudol Rheoleiddwyr Arbenigwyr academaidd Cyrff anllywodraethol
Disgrifydd y broblem drosfwaol	Gallai newidiadau ffisegol i gynefinoedd cynnal gael effaith uniongyrchol ar ffactorau sy'n bwysig i famaliaid morfilaidd, megis y rhywogaethau ysglyfaethus sydd ar gael a'u dwysedd ynni. Ar gyfer rhai rhywogaethau ysglyfaethus sy'n celu eu hwyau ar wely'r môr, megis y llymrien a'r pennog, mae cyflwr ffisegol y cynefin yn bryder perthnasol sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chynnal digon o adnoddau ysglyfaethus er mwyn cefnogi'r poblogaethau mamaliaid morfilaidd yn ddigonol. O ganlyniad, gallai gweithgareddau sydd â'r potensial o achosi'r cynefinoedd hyn ar wely'r môr hyn i ddirywio neu erydu'n sylweddol (e.e. carthu hydrologig, tyrchu cynnyrch cyflawn, dympio) arwain at leihau rhywogaethau ysglyfaethus yn lleol.
Cynllun	Datblygu gweithgor Gweithredu â Chylch Gorchwyl y cytunwyd arno.
Amserlen	Creu gweithgorau Gweithredu a Chylch Gorchwyl o fewn chwe mis i gyhoeddi'r strategaeth gadwraeth.
Digwyddiadau	Cyfarfodydd gweithgor a gweithdai â rhanddeiliaid a phartïon arweiniol perthnasol (rhanbarthol a chenedlaethol) er mwyn trafod materion, bylchau ymchwil allweddol a mynd i'r afael ag anghenion data.
Cysylltiadau â chamau gweithredu eraill a gwerth ychwanegol	Bydd y gweithgorau o'r Cam Gweithredu hwn yn bwydo yn uniongyrchol i mewn i'r Camau Gweithredu monitro sy'n seiliedig ar lygryddion a difwynwyr, sŵn ac ymchwil. Gallai ymchwil a gynhelir o dan y Cam Gweithredu hwn fwydo i mewn i/llywio gweithgorau a fframweithiau perthnasol, megis: Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol Y Comisiwn Hela Mamaliaid Morfilaidd Rhyngwladol OSPAR ORJIP

	Cyngor Rhyngwladol Archwilio'r Môr.
Adnoddau	Adnoddau dynol sydd eu hangen i sefydlu gweithgorau ac i ddatblygu'r cynlluniau tymor byr, canolig a hirdymor.
Rhwystrau rhag Cynnydd	Diffyg adnoddau: Gofynnir am adnoddau i sefydlu'r gweithgorau ac i ddatblygu/gweithredu cynlluniau tymor byr, canolig a hirdymor. Gofynnir am gyfraniad a chefnogaeth gan reolyddion a diwydiannau er mwyn caniatáu i fylchau gwybodaeth gael eu llenwi. Gallai cynnydd fod yn ddibynnol ar waith sy'n mynd rhagddo mewn grwpiau cenedlaethol a/neu ryngwladol eraill.
Y rhanddeiliaid i ymgysylltu â nhw	Fel y partneriaid cyflenwi a'r rhanddeiliaid perthnasol fel y nodwyd gan y gweithgor.
Awdurdodau Cymwys Eraill	I'w nodi yn rhan o'r cysylltiad â grwpiau cenedlaethol eraill.

7. Datblygu fframwaith er mwyn blaenoriaethu gofynion ymchwil

Arweinydd cyflawni	Cyrff Cadwraeth Natur Statudol
Cyfranogwyr ar gyfer cyflawni	Y Llywodraeth a Chyrff Cadwraeth Natur Statudol Arbenigwyr academaidd Cyrff anllywodraethol SMASS a CSIP y DU Diwydiant (pan fo hynny'n berthnasol)
Disgrifiad cyffredinol o'r broblem	I lawer o rywogaethau mamaliaid morfilaidd sy'n dod i ddyfroedd y DU, nid oes digon o wybodaeth sylfaenol i ddeall dynamigau eu poblogaeth, gofynion eu ffordd o fyw nac effeithiau gweithgareddau dynol. Mae hyn yn golygu ei bod yn anodd cynhyrchu tueddiadau neu asesu eu statws cadwraeth yn hyderus. Mae'r goblygiadau'n cynnwys risgiau o ran gwarchod y rhywogaethau a gwybodaeth gyfyngedig y seilir penderfyniadau rheoli arni. Er y gallai monitro helpu i fynd i'r afael â bylchau mewn gwybodaeth ynghylch helaethrwydd, dosbarthiad a'r hyn sy'n digwydd yn dymhorol, bydd diffyg gwybodaeth o hyd ynghylch ffrwythlondeb, cyfraddau marwolaethau (e.e. oherwydd trawiadau â llongau), a'r ysglyfaeth a'r cynefinoedd a ffefrir. Felly, mae angen ymchwil ychwanegol sydd wedi ei haddasu er mwyn helpu i lenwi rhai o'r bylchau hyn.

Cynllun:	Mae'r cynllun hwn yn berthnasol i bob rhywogaeth o famaliaid morfilaidd sydd yn y Strategaeth Gadwraeth: Ffurio gweithgor Gweithredu a ddylai gynnwys cynrychiolwyr o bob gweithgor Gweithredu arall a datblygu Cylch Gorchwyl.
Amserlen	Datblygu gweithgor Gweithredu a Chylch Gorchwyl (o fewn tri mis i gyhoeddi'r Strategaeth Gadwraeth).
Cysylltiadau â chamau gweithredu eraill a gwerth ychwanegol	Yn ddibynnol ar ofynion yr holl Grwpiau Gweithredu gallai ymchwil a gynhelir o dan y Cam Gweithredu hwn fwydo i mewn i/llywio gweithgorau a fframweithiau perthnasol, megis: Cyfarwydddeb Fframwaith y Strategaeth Forol OSPAR Y Comisiwn Hela Mamaliaid Morfilaidd Rhyngwladol ORJIP Y Cytundeb ar Warchod Mamaliaid Morfilaidd Bach ym Môr y Baltig, Gogledd-ddwyrain yr Iwerydd, Môr Iwerddon a Môr y Gogledd Cyngor Rhyngwladol Archwilio'r Môr Cynlluniau Morol y DU.
Adnoddau	Adnoddau dynol sydd eu hangen i sefydlu gweithgor.
Rhwystrau rhag Cynnydd	Diffyg adnoddau i weithredu'r ymchwil a nodwyd. Mae angen cyfraniad gan Gynlluniau Gweithredu eraill er mwyn sicrhau bod yr ymchwil yn bodloni eu gofynion. Gallai cynnydd fod yn ddibynnol ar waith sy'n mynd rhagddo mewn grwpiau cenedlaethol a/neu ryngwladol eraill.
Y rhanddeiliaid i ymgysylltu â nhw	Fel y partneriaid cyflenwi a'r rhanddeiliaid perthnasol fel y nodwyd gan y gweithgor.
Awdurdodau Cymwys Eraill	I'w nodi yn rhan o'r cysylltiad â grwpiau cenedlaethol eraill.

8. Datblygu a gweithredu cysylltiadau â rhanddeiliaid er mwyn cefnogi camau cadwraeth.

Arweinydd cyflawni	Y Llywodraeth
Cyfranogwyr ar gyfer cyflawni	Y Llywodraeth a Chyrff Cadwraeth Natur Statudol Rheoleiddwyr Cynrychiolwyr y diwydiant Arbenigwyr academaidd Cyrff anllywodraethol

	Cynlluniau'r DU ar gyfer mamaliaid morol sydd wedi tirio (SMASS, CSIP)
Disgrifiad o'r broblem	Bydd amryw o ddewisiadau ymchwil a rheoli yn cael eu harchwilio yn rhan o'r Strategaeth Gadwraeth hon. Mae gwaith ymchwil a rheoli yn mynd rhagddo ledled y DU hefyd. O'r herwydd, mae angen cynllun cyfathrebu a reolir yn dda er mwyn sicrhau gwell cyfathrebu dwy ffordd a chyfnewid gwybodaeth ynghylch: Statws poblogaeth mamaliaid morfilaidd a bygythiadau er mwyn helpu i hybu gweithredu gan eraill. Mesurau sydd wedi eu rhoi ar waith a gwersi a ddysgwyd gan awdurdodau rheoli perthnasol a'r cyhoedd.
Cynllun	Mae cyfathrebu'n berthnasol i ddyfroedd y DU, gan gwmpasu pob rhywogaeth a gwmpesir gan y Strategaeth Gadwraeth. Canolbwyntio ar ddatblygu deunyddiau ac arddangos canlyniadau i gynulleidfa ehangach. Gall y deunydd hwn fod yn berthnasol i weinyddiaethau'r DU hefyd wrth iddynt gyfathrebu â gwledydd partner (e.e. yn ystod cyfarfodydd OSPAR).
Amserlen	Creu gweithgor Gweithredu a Chylch Gorchwyl (o fewn tri mis i gyhoeddi'r Strategaeth Gadwraeth).
Digwyddiadau	Ni chynlluniwyd unrhyw ddigwyddiadau penodol, ond gellid eu datblygu yn rhan o'r cynllun cyfathrebu blynyddol.
Cysylltiadau â chamau gweithredu eraill a gwerth ychwanegol	Pob gweithred arall.
Adnoddau	Adnoddau dynol wrth fynd i gyfarfodydd gweithgor.
Rhwystrau rhag Cynnydd	Diffyg adnoddau: Mae angen adnoddau i sefydlu'r gweithgor ac i sefydlu a chynnal y wefan a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Mae angen i weithgorau gweithredu roi gwybod i'r sefydliad arweiniol am y camau a gymerir y gellir eu lledaenu i gynulleidfa ehangach.
Y rhanddeiliaid i ymgysylltu â nhw	Fel y partneriaid cyflenwi a'r rhanddeiliaid rhanbarthol perthnasol fel y nodwyd gan y gweithgorau.
Awdurdodau Cymwys Eraill	Dim un

9. Datblygu a gweithredu cynllun monitro effeithiol er mwyn darparu dealltwriaeth fwy cadarn am statws cadwraeth mamaliaid morfilaidd y DU

Arweinydd Cyflawni	Y Llywodraeth a Chyrff Cadwraeth Natur Statudol
Cyfranogwyr ar gyfer cyflawni	Llywodraethau a Chyrff Cadwraeth Natur Statudol Arweinwyr rhaglenni monitro presennol y DU (e.e. sgil-ddal a monitro achosion o dirio/post-mortem) Arbenigwyr academaidd Cynrychiolwyr y diwydiant Cyrff anllywodraethol
Disgrifiad o'r broblem	<p>Asesir statws cadwraeth mamaliaid morfilaidd yn nyfroedd y DU trwy adrodd o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn seiliedig ar allbynnau o raglenni gwylidwriaeth y mae'n ofynnol i Aelod-wladwriaethau eu gweithredu. Hefyd, mae statws poblogaethau mamaliaid morfilaidd yn elfen o gyfres o ddangosyddion a ddefnyddir yn rhyngwladol gan OSPAR ac yn genedlaethol gan Aelod-wladwriaethau i adrodd ar Statws Amgylcheddol Da o dan Gyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol. Fodd bynnag, i lawer o rywogaethau o forfilod yn y DU, nid oes gennym wybodaeth ddigonol i ddeall eu statws yn hyderus. Mae'r goblygiadau hyn yn cynnwys risgiau o ran gwarchod y rhywogaethau a gwybodaeth gyfyngedig y gellir seilio penderfyniadau rheoli arni.</p> <p>Ymgwymerir â Strategaeth Monitro ac Asesu Morol y DU (UKMMAS) mewn partneriaeth â Grŵp Tystiolaeth Moroedd Iach a Biolegol Amrywiol (HBDSEG) y DU. Nod y cyngor yw mynd i'r afael â rhwymedigaethau statudol a pholisi sylweddol y DU.</p> <p>Mae Rhaglen Ymchwil a Datblygu Monitro Bioamrywiaeth Morol y DU (dan arweiniad Cydbwyllgor Cadwraeth Natur) wedi cael y dasg o ddatblygu argymhellion ar gyfer cynllun monitro³ integredig ar gyfer yr holl fioamrywiaeth forol ar draws holl ddyfroedd y DU. Erbyn hyn, mae Cydbwyllgor Cadwraeth Natur yn arwain y tasgau i ddatblygu'r rhaglen integredig.</p>

³ Monitro: arsylwi a gwirio cynnydd neu ansawdd rhywbeth (e.e. helaethrwydd poblogaeth) dros gyfnod o amser er mwyn sicrhau bod [amcanion](#) cadwraeth/monitro yn cael eu cyflawni.

	<p>Byddai'r Cam Gweithredu hwn yn cymryd allbynnau/argymhellion Rhaglen Monitro Integredig y Cydbwyllgor Cadwraeth Natur ac yn gweithio o fewn uchelgeisiau Strategaeth Monitro ac Asesu Morol y DU (UKMMAS) a Grŵp Tystiolaeth Moroedd Iach a Biolegol Amrywiol (HBDSEG) i ddatblygu cynlluniau ar gyfer gweithredu. Gallai cynlluniau o'r fath fod ledled y DU neu'n rhanbarthol er mwyn adlewyrchu gofynion y Gweinyddiaethau Datganoledig. Bydd y Cam Gweithredu hwn hefyd yn nodi ac yn datblygu cynlluniau ar gyfer unrhyw fylchau wrth fonitro mamaliaid morfilaidd er mwyn sicrhau dealltwriaeth fwy cyflawn o statws cadwraeth holl forfilod y DU a chefnogi'r gwaith rheoli.</p>
Cynllun	<p>Mae'r Cam Gweithredu hwn yn ymwneud â gweithredu rhaglen monitro mamaliaid morfilaidd effeithiol yn y DU er mwyn darparu dealltwriaeth fwy cadarn o statws cadwraeth mamaliaid morfilaidd y DU. Mae hyn yn cysylltu'n uniongyrchol â rhaglen monitro bioamrywiaeth forol integredig y DU a arweinir gan Cydbwyllgor Cadwraeth Natur. Bydd y Cam Gweithredu hwn yn ystyried allbynnau'r rhaglen hon ac yn gweithio gyda'r rhaglen i ddatblygu cynllun gweithredu.</p> <p>Caiff llwyddiant y cynllun ei fesur trwy weithredu rhaglen monitro mamaliaid morfilaidd gweithredol yn llwyddiannus.</p>
Amserlen	Llywodraethau i gytuno ar gyllid ar gyfer y rhaglen.
Digwyddiadau	Cyfarfodydd gweithgor.
Cysylltiadau â chamau gweithredu eraill a gwerth ychwanegol	<p>Mae'r Cydbwyllgor Cadwraeth Natur yn arwain y gwaith o ddatblygu rhaglen fonitro ar gyfer mamaliaid morfilaidd yn rhan o fenter Strategaeth Monitro ac Asesu Morol y DU (UKMMAS) mewn partneriaeth â Grŵp Tystiolaeth Moroedd Iach a Biolegol Amrywiol (HBDSEG).</p> <p>Bydd y Cam Gweithredu hwn yn cydgysylltu ac yn rheoli'r gwaith o weithredu'r rhaglen fonitro ar gyfer mamaliaid morfilaidd. Bydd gweithredu llwyddiannus yn sicrhau bod y broses o gasglu data yn addas i'w diben a bod dadansoddiadau'n briodol i'w cyflawni ar ymrwymadau cenedlaethol (e.e. y Strategaeth Forol) a rhyngwladol (e.e. fel Parti i OSPAR) y DU.</p>

	Gallai Camau gweithredu eraill sy'n mynd i'r afael â phwysau penodol nodi'r angen am fonitro ychwanegol. Gan ddibynnu ar ei natur ac i ba raddau y mae'n gweddu â chylch gwaith ehangach y rhaglen monitro mamaliaid morfilaidd, efallai y byddai'n briodol i'r Cam Gweithredu hwn ymgorffori hyn.
Adnoddau	Mae'r rhaglen monitro mamaliaid morfilaidd eisoes wedi ei nodi ac mae'n aros am gefnogaeth y Llywodraeth i'w gweithredu. Mae Grwpiau Llywio eisoes yn ariannu ac yn cefnogi rhaglenni monitro sy'n bodoli ar hyn o bryd. Bydd angen i'r Gweithgor hwn gysylltu â nhw er mwyn sicrhau y cefnogir yr anghenion monitro y cytunir arnynt.
Rhwystrau rhag Cynnydd	Nid oes digon o adnoddau Gallai cynnydd fod yn gyfyngedig os na fodlonir cytundeb ynghylch rhaglen monitro mamaliaid morfilaidd Grŵp Tystiolaeth Moroedd Iach a Biolegol Amrywiol (HBDSEG).
Y rhanddeiliaid i ymgysylltu â nhw	Cyrff anllywodraethol Academyddion Diwydiant Gwledydd yr UE
Awdurdodau Cymwys Eraill	I'w nodi yn rhan o'r cysylltiad â grwpiau cenedlaethol eraill.

Cyfeiriadau

COMPASS: <https://www.sams.ac.uk/science/projects/compass/>

Copping A, Sather N, Hanna L, Whiting J, Zydlewski G, Staines G, Gill A, Hutchison I, O'Hagan A, Simas T, Bald J, Sparling C, Wood J, Masden E. 2016. Annex IV 2016 State of the Science Report: Environmental Effects of Marine Renewable Energy Development Around the World. tt 224.

https://tethys.pnnl.gov/sites/default/files/publications/Annex-IV-2016-State-of-the-Science-Report_MR.pdf

DEPONS: <http://www.depons.au.dk>

ECOMMAS: <http://marine.gov.scot/information/east-coast-marine-mammal-acoustic-study-ecommas>

Hammond, P. S., Lacey, C., Gilles, A., Viquerat, S., Börjesson, P., Herr, H., Macleod, K., Ridoux, V., Santos, M. B., Scheidat, M., Teilmann, J., Vingada, J ac Øien, N. (2017). Estimates of cetacean abundance in European Atlantic waters in summer 2016 from the SCANS-III aerial and shipboard surveys. *Ar gael yma*: <https://synergy.st-andrews.ac.uk/scans3/files/2017/04/SCANS-III-design-based-estimates-2017-04-28-final.pdf>

Hammond, P.S., Macleod, K., Berggren, P., Borchers, D. L., Burt, L., Cañadas, A., Desportes, G., Donovan, G. P., Gilles, A., Gillespie, D., Gordon, J., Hiby, L., Kuklik, I., Leaper, R., Lehnert, K., Leopold, M., Lovell, P., Øien, Nils, Paxton, C. G. M., Ridoux, V., Rogan, E., Samarra, F., Scheidat, M., Sequeira, M., Siebert, U., Skov, H., Swift, R., Tasker, M. L., Teilmann, J., Van Canneyt O a Vázquez, J. A. (2013). Cetacean abundance and distribution in European Atlantic shelf waters to inform conservation and management. *Biological Conservation*, Volume 164, 2013, tt 107-122, ISSN 0006-3207, <https://doi.org/10.1016/j.biocon.2013.04.010>.

Hastie GD, Russell DJF, Lepper P, *et al.*, 2017. Harbour seals avoid tidal turbine noise: Implications for collision risk. *J Appl Ecol.* 55:684–693. <https://doi.org/10.1111/1365-2664.12981>

Hastie, G. D., Wilson, B., Tufft, L. H. a Thompson, P. M. 2003, Bottlenose dolphins increase breathing synchrony in response to boat traffic. *Marine Mammal Science* 19, 74-84.

Hebridean Whale & Dolphin Trust 2001, Whale-watching in West Scotland. 1-73 (Department for Environment, Food and Rural Affairs, London).

Howard, C. a Parsons, E. C. M 2006, Public Awareness of Whale-watching Opportunities in Scotland. *Tourism in Marine Environments* 2, 103-109, doi:10.3727/154427306779436336.

Hutchinson I, Copping A. 2016. A coordinated Action Plan for Addressing Collision Risk for Marine Mammals and Tidal Turbines. https://tethys.pnnl.gov/sites/default/files/publications/Collision_Risk_Workshop_Final_Report.pdf

Inman, A., Brooker, E., Dolman, S., McCann, R. a Wilson, A. M. W, 2016. The use of marine wildlife-watching codes and their role in managing activities within marine

protected areas in Scotland. *Ocean & Coastal Management* 132, 132-142, doi:<http://dx.doi.org/10.1016/j.ocecoaman.2016.08.005> .

iPCoD: <http://www.smruconsulting.com/products-tools/pcod/ipcod/>

Jepson *et al.*, 2016, PCB pollution continues to impact populations of orcas and other dolphins in European waters. *Sci. Rep.* 6, 18573; doi: 10.1038/srep18573.

JOMOPANS: <https://northsearegion.eu/jomopans>

Merchant, N.D. Brookes, K.L., Faulkner, R.C., Bicknell, A.W.J., Godley, B.J. a Witt, M.L. (2016) Underwater noise levels in UK waters. *Scientific Reports*, 6:36942. DOI: 10.1038/srep36942

National Marine Fisheries Service. (2018) 2018 Revisions to: Technical Guidance for Assessing the Effects of Anthropogenic Sound on Marine Mammal Hearing (Version 2.0): Underwater Thresholds for Onset of Permanent and Temporary Threshold Shifts. U.S. Dept. of Commer., NOAA. NOAA Technical Memorandum NMFS-OPR-59, 167 t.

Parsons, E. C. M. a Woods-Ballard, A. 2003, Acceptance of Voluntary Whalewatching Codes of Conduct in West Scotland: The Effectiveness of Governmental Versus Industry-led Guidelines. *Current issues in Tourism* 6, 172-182 .

Rawles, C. J. G. a Parsons, E. C. M. 2005, Environmental motivation of whale-watching tourists in Scotland. *Tourism in Marine Environments* 1, 129-132.

Scott, N. J. a Parsons, E. C. M. 2005, A survey of public opinion in south-west Scotland on cetacean conservation issues. *Aquatic Conservation: Marine and Freshwater Ecosystems* 15, 299-312, doi:10.1002/aqc.662.

Sini, M. I., Canning, S. J., Stockin, K. A. a Pierce, G. J. 2005, Bottlenose dolphins around Aberdeen harbour, north-east Scotland: a short study of habitat utilization and the potential effects of boat traffic. *Journal of the Marine Biological Association of the United Kingdom* 85, 1547-1554.

Stuart-Smith a Jepson, 2017, Persistent threats need persistent counteraction: Responding to PCB pollution in marine mammals. *Marine Policy*, 84, 69-75; doi: 10.1016/j.marpol.2017.06.033

UKMBMS, 2017. The UK Marine Biodiversity Monitoring Strategy Version 4.1 http://jncc.defra.gov.uk/pdf/Marine_Monitoring_Strategy_ver.4.1.pdf